**Y Pwyllgor Diwylliant - CC-19-01(p.1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 5 Rhagfyr 2001 |
| **Amser:** | 9.00am - 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDIWYLLIANT, CHWARAEON A'R GYMRAEG**

***Clwyd Theatr Cymru***

Cyfarfu'r Gweinidog dros Gyllid a minnau â chynrychiolwyr Cyngor Sir y Fflint ar 14 Tachwedd a chael trafodaeth bositif iawn ynghylch dyfodol tymor hir Clwyd Theatr Cymru. Byddwn yn cynnal mwy o gyfarfodydd yn y dyfodol agos. Cyfarfu Cyngor y Celfyddydau â Chlwyd Theatr Cymru yr wythnos ddiwethaf.

Rwy'n hyderus y bydd ateb yn cael ei ganfod i ariannu'r theatr yn y tymor hir.

***Cerddorfeydd Siambr***

Roeddwn yn fodlon iawn â'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer gweithgareddau gan Gerddorfeydd Siambr yng Nghymru (£150,000 y flwyddyn o 2002/03).

Cefnogir gweithgareddau siambr er mwyn cynyddu nifer y perfformiadau gan Gerddorfeydd Siambr ledled Cymru, cyfrannu at ddatblygiad cerddorol pobl ifanc yng Nghymru a thargedu ardaloedd daearyddol lle nad oes fawr o gyfle i fynychu digwyddiadau yn ymwneud â cherddoriaeth glasurol ar hyn o bryd.

Byddaf yn cyhoeddi mwy o fanylion yn fuan.

***Rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon y Gronfa Cyfleoedd Newydd (NOF)***

Lansiwyd Rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon y Gronfa Cyfleoedd Newydd gennyf a'r Gweinidog dros Addysg ddydd Llun 19 Tachwedd 2001. Bydd y rhaglen hon yn rhoi £48.75 miliwn o arian Loteri i ysgolion ledled Cymru erbyn 2005 er mwyn datblygu cyfleusterau chwaraeon. Disgwylir y bydd y cyllid hwnnw yn darparu cyfleusterau sydd â thema gymunedol

cryf ac yn sicrhau bod gweithgareddau addysg corfforol ar gael yn y cymunedau ehangach yng Nghymru, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig.

Bydd pob Awdurdod Addysg Lleol (AALl) yn derbyn dyraniad sy'n seiliedig ar nifer y disgyblion rhwng pump ac 16 oed yn yr ysgolion, a pha mor ddifreintiedig yw'r cymunedau yn ardal yr awdurdod hwnnw. Disgwylir y bydd yr AALl'au yn cyflwyno eu rhestrau o brosiectau sy'n cael blaenoriaeth i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn ystod haf 2002.

***Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (NBGW)***

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn ceisio cyllid gan y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn rhyddhau cyllid gan Gomisiwn y Mileniwm ac i wneud mwy o waith cyfalaf. Bellach, maent wedi cyflwyno achos busnes i'r Cynulliad sy'n pennu eu gofynion o ran cyllid.

Mae swyddogion wrthi'n ystyried yr achos busnes ar hyn o bryd.

***Stadiwm y Mileniwm***

Mae Glanmor Griffiths (Cadeirydd Stadiwm y Mileniwm Cyf.) wedi ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn gofyn am gymorth gan y Cynulliad oherwydd diffyg ariannol o £9.1 miliwn. Mae'r 'diffyg ariannol' yn gysylltiedig â thalu trethi busnes, Comisiwn y Mileniwm yn gwrthod mynd y tu hwnt i'r ddarpariaeth y cytunwyd arni a mwy o gefnogaeth o'r sector cyhoeddus ar gyfer adeiladu'r 'Riverwalk'. Hefyd, dywedodd yn gyhoeddus ei fod yn pryderu nad yw'r Cynulliad yn rhoi cymorth digonol i'r Stadiwm, o'i gymharu â phrosiectau eraill y Mileniwm yng Nghymru (e. e. Canolfan y Mileniwm).

Mae'r Cynulliad eisoes wedi rhoi £3.25 miliwn i'r Stadiwm tuag at gost y 'Riverwalk' ac i wella'r cae ar gyfer Cwpan yr FA yn 2000.

Rwyf wedi cytuno i gyfarfod â Mr Griffiths er mwyn trafod ei bryderon.

***Fforwm Pêl Droed***

Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Fforwm eisoes. Bydd y trydydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn Wrecsam ym mis Rhagfyr. Rwyf wedi gwahodd Mr Mark Aizelwood, Rheolwr Technegol newydd Cymdeithas Pêl Droed Cymru, i fod yn rhan o'r Fforwm. Cylch gwaith Mark yw edrych ar sut i ddatblygu pêl droed yng Nghymru, ac mae ei rôl yn berthnasol i waith y Fforwm.

Dywedodd Cadeirydd y Fforwm ei fod yn fodlon iawn â'r ffordd y mae gwaith y Fforwm yn datblygu. Gwnaed penderfyniadau adeiladol ar rolau a chyfrifoldebau gwahanol yr amryw sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Fforwm er mwyn pennu'r ffordd orau i symud ymlaen a llunio strategaeth i ddatblygu pêl droed yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc.

### *Fforwm Diogelwch Gweithgareddau Awyr Agored*

Cyflwynais ddatganiad yn y cyfarfod llawn ar 1 Tachwedd ynghylch diogelwch wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd swyddogion at Gadeirydd y Grwp Gweithgareddau Awyr Agored yn holi a fyddai'r aelodau'n ystyried bod yn gyfrifol am Fforwm Diogelwch, archwilio cylch gorchwyl drafft a phennu aelodau. Bydd y grwp yn trafod y mater yn ei gyfarfod nesaf ar 6 Rhagfyr.

### *Gwobrau Hyfforddwr y Flwyddyn*

Yn ddiweddar, cyflwynais Wobrau Hyfforddwr y Flwyddyn a gynhaliwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Roeddent yn canolbwyntio ar rôl hanfodol yr hyfforddwyr o safbwynt datblygu chwaraeon yng Nghymru ac yn tynnu sylw at rai o'r mentrau a gyflwynwyd gan y Cyngor Chwaraeon i annog a chefnogi hyfforddwyr yng Nghymru.

Enillydd y wobr eleni oedd Denley Isaac, hyfforddwr Rygbi Ieuenctid Cymru, sydd wedi llywio'r tîm at lwyddiannau newydd.

### *Cynhadledd ar Hyfforddi o Safon Fyd-Eang*

Cynhaliwyd y gynhadledd dridiau yn y Vale of Glamorgan Country Club rhwng 26-28 Tachwedd. Nod y digwyddiad mawreddog hwn oedd annog y rhai sy'n hyfforddi ac yn cefnogi'r mabolgampwyr gorau i ailfeddwl a chyfnerthu eu hagweddau, a rhannu eu harbenigedd fel bod Prydain yn datblygu'n wlad sy'n fwy llwyddiannus mewn chwaraeon. Dim ond yr hyfforddwyr/ staff cymorth sy'n gweithio ar lefel fyd-eang gafodd wahoddiad.

Dyma'r tro cyntaf i'r gynhadledd gael ei chynnal yng Nghymru. Cafodd ei hagor gan Richard Caborn AS, Gweinidog Prydain dros Chwaraeon. Mynychais ddiwrnod olaf y gynhadledd gan draddodi araith a oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd parhau i rannu gwybodaeth a phrofiad y tu allan i'r gynhadledd; yr angen i gyfathrebu'n effeithiol ac arwyddocâd rheoli newidiadau mewn ffordd bositif a chreadigol er mwyn cael y gorau o'r athletwyr.

Cafodd y gynhadledd gefnogaeth dda gyda bron i 180 yn bresennol.

### *Tasglu Byw'n Iach a Gweithgar*

Mae'r Tasglu wedi paratoi eu hadroddiad terfynol sy'n cynnwys nifer o argymhellion yn ymwneud â dyfodol iechyd yng Nghymru. Dywedodd Cadeirydd y Tasglu efallai y byddai'n briodol cynnal proses ymgynghori ehangach er mwyn sicrhau integreiddio llawn â mentrau eraill y Cynulliad a llywodraeth leol, yn enwedig rôl y byrddau iechyd lleol arfaethedig. Rwy'n cytuno â'i sylwadau ac yn bwriadu cyfarfod â'r Cyngor Chwaraeon a'r Gweinidog dros Iechyd i drafod yr argymhellion yn fwy manwl a phennu'r ffordd orau i symud ymlaen.

***Cwpan Ryder***

Mae fy swyddogion yn cydweithio â'r pwyllgor cais am gystadleuaeth Cwpan Ryder, gan gynnwys Celtic Manor, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru, er mwyn ystyried pa strwythur cyfundrefnol fyddai orau ar gyfer cyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y Cais am gystadleuaeth Cwpan Ryder. Y nod fydd cynnal digwyddiad llwyddiannus iawn a sicrhau bod Cymru'n elwa yn y tymor hir o safbwynt datblygu golff, twristiaeth a'r economi.

***Cymraes y Flwyddyn***

Mynychais Seremoni Wobrwyo a Chinio Cymraes y Flwyddyn fel gwestai Cyngor Chwaraeon Cymru ar 23 Tachwedd 2001 yn Arena Ryngwladol Caerdydd (CIA). Roedd yn noson lwyddiannus iawn a chyflwynwyd gwobr 'Menyw mewn Chwaraeon" am y tro cyntaf. Enillydd y wobr oedd Tanni Grey Thompson. Roedd yn dda gweld y wobr newydd hon yn cael ei chyflwyno i'r dathliad blynyddol o rôl menywod yn y gweithle ac ym mhob sector o'r gymdeithas. Tanni enillodd y brif wobr Cymraes y Flwyddyn. Mae'n hyn yn bwysig iawn ar gyfer datblygu chwaraeon y menywod yng Nghymru.

***Cynhadledd Menywod a Merched***

Ar 4 Tachwedd, bûm yn annerch Cynhadledd Hyfforddi ar Ddatblygu Chwaraeon yng Nghymru; digwyddiad blynddol a ariennir gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Eleni, i gydnabod Blwyddyn Rhyngwladol y Gwirfoddolwr, cynhaliwyd y gynhadledd ar ddydd Sul fel bod mwy o bobl o'r sector gwirfoddol yn gallu bod yn bresennol. Canolbwyntiodd y gynhadledd ar faterion yn ymwneud â'r cyfleoedd i fenywod a merched gymryd rhan mewn chwaraeon. Ymhlith ei hamcanion penodol oedd rhoi mwy o sylw o fewn y byd chwaraeon i'r hyn sy'n wynebu menywod a merched wrth iddynt geisio cymryd rhan mewn chwaraeon, a darparu sylfaen ar gyfer ymgynghori a fydd yn cyfrannu gwybodaeth at waith Grwp Ymgynghorol Menywod a Merched a'r rhwydwaith datblygu chwaraeon ehangach yng Nghymru.

***Rali Network Q***

Mynychais Rali Network Q ar ddydd Sadwrn 24 Tachwedd, ac fel y rhai a oedd yn gysylltiedig, roeddwn yn pryderu ynghylch lles y gwylwyr a anafwyd pan aeth car Carlos Sainz oddi ar y

ffordd ar yr 11ed rhan. Mae'r ddamwain hon yn codi cwestiynau ynghylch diogelwch gwylwyr ac felly rwy'n croesawu'r ymchwiliad llawn a gynhelir gan y Gymdeithas Chwaraeon Modur. Fodd bynnag, mae'n dda gweld bod y Rali wedi dychwelyd i Gymru eleni a'i fod, i bob pwrpas, yn gystadleuaeth amlwg sy'n pennu pwy allai ennill Pencampwriaeth y Byd. Dengys eto bod Cymru'n cael ei hystyried fel lleoliad gyda'r gorau yn y byd ar gyfer digwyddiadau rhyngwladol ac mae'r digwyddiadau hyn yn cyflwyno Cymru i'r byd.

Mae'r sylw a gafodd Cymru ledled y byd o ganlyniad i'r Rali yn tanlinellu pa mor fuddiol yw denu digwyddiadau o'r safon uchaf i Gymru.

***Penodi Cadeirydd i Gyngor y Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd (Cymru)***

Ar ôl ymgynghori â Rhodri Glyn Thomas a Rosemary Butler, rwyf wedi penodi Mrs Linda Tomos fel Cadeirydd newydd Cyngor y Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd (Cymru).

Linda yw Cyfarwyddwr Rhwydwaith Gwybodaeth Cymru, sy'n wasanaeth yngynghori ar ymchwil a leolir yn yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr Prosiect ar gyfer Consortiwm Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd Cymru, sy'n darparu sylfaen i faterion sy'n effeithio ar wasanaethau gwybodaeth a llyfrgelloedd yng Nghymru. Mae'n aelod o'r Cyngor ers sawl blwyddyn bellach, ac yn aelod o'r Cyngor Archifau (Cymru) a hi yw Cadeirydd Cyngor Darlledu Addysg y BBC yng Nghymru. Mawr fu ei chyfraniad yn y gwaith o weithredu Rhwydwaith TGCh y Bobl mewn llyfrgelloedd yng Nghymru ac mae ganddi enw da iawn ymhlith y rhai sydd yn y sector gwybodaeth a llyfrgelloedd.

***Archif Genedlaethol Sain a Sgrîn Cymru***

Ar 21 Tachwedd lansiais Archif Genedlaethol Sain a Sgrîn Cymru yn y Gyfnewidfa Lo yng Nghaerdydd. Mae’r Archif yn fenter ar y cyd rhwng Sgrîn: Asiantaeth Cyfryngau Cymru a’r Llyfrgell Genedlaethol. Mae’n uno dau gasgliad unigryw o ddeunydd sain a delweddau symudol, sef casgliad Archif Ffilm a Theledu Cymru a chasgliad y Llyfrgell Genedlaethol. Mae’r Archif wedi cysylltu’n uniongyrchol â’r cyhoedd ac â sefydliadau trwy raglen o ddigwyddiadau lansio, trwy gyhoeddi taflen esboniadol a thrwy fynd ati i ymgynghori’n uniongyrchol â’r cyhoedd ynghylch sut y byddent yn dymuno i’r Archif ddatblygu, a byddant yn parhau i wneud hynny. Bydd yn un o brif elfennau prosiect amlgyfrwng y Llyfrgell, Profiad yr Ymwelydd, ymhen rhai blynyddoedd. Bydd yn galluogi cynulleidfaoedd yng Nghymru a chynulleidfaoedd ledled y byd i gael gafael ar y deunydd.

***Grwp Cyhoeddi***

Mae grwp cyhoeddi’r Dirprwy Weinidog bellach wedi cyfarfod bum gwaith. Caiff yr adroddiad ar ei ganfyddiadau ei gwblhau (cynhelir y cyfarfod olaf ar 12 Rhagfyr) ac wedi i mi ei ystyried,

byddaf yn rhannu'r canlyniadau â chi yn y flwyddyn newydd. Croesawyd y camau a gymerwyd eisoes i symleiddio'r broses o ariannu'r Cyngor, trwy roi cyllid y Cynulliad iddo yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy'r Awdurdodau Unedol. Roedd y camau'n deillio o argymhelliad a wnaed yng nghyfarfod cyntaf y grwp.

***Cynhadledd Cymru-Canada***

Ar 29 a 30 Tachwedd, cynhaliwyd cynhadledd ryngwladol lwyddiannus gan y Cynulliad, mewn partneriaeth â Fforwm Ffederasiynau Canada, ar "Iaith a Llywodraeth". Roedd tua 70 cynrychiolydd o Ganada, yr Alban, Iwerddon a Chymru yn bresennol. Agorwyd y Gynhadledd gan Brif Weinidog Cymru a Chomisiynydd Ieithoedd Swyddogol Canada. Rwy'n gobeithio bod yr Aelodau a oedd yn bresennol wedi manteisio'n llawn ar y cyfle i gyfnewid syniadau a gwybodaeth ar amryw fframweithiau a ddefnyddir i gefnogi dwyieithrwydd, amlieithrwydd a ieithoedd lleiafrifol yn y gwledydd a gynrychiolwyd. Caiff adroddiad ei baratoi ar y Gynhadledd ac efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno'i ystyried.

***Ffilm***

Tua diwedd y mis, bûm yn annerch cynhadledd Sgrîn, "Ffocws ar Ffilm". Yn ystod fy araith cyhoeddais y byddai Comisiwn Sgrîn Cymru yn cael ei sefydlu. Mae Comisiwn Sgrîn Cymru yn ddatblygiad i'w groesawu ac mae'n deillio o un o argymhellion adroddiad y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed, "Diwylliant Cytûn". Fe'i hariennir gan Awdurdod Datblygu Cymru a'r awdurdodau unedol. Lleolir Comisiwn Sgrîn Cymru yn Sgrîn a bydd yn uno arbenigedd y swyddfeydd lleoliad rhanbarthol er mwyn hybu enw da Cymru fel gwlad sy'n croesawu'r byd ffilm. Bydd yn galluogi Sgrîn a'i phartneriaid i farchnata lleoliadau ac adnoddau Cymru i gyd yn y farchnad fyd eang. Penodir Comisiynydd Cenedlaethol yn fuan.

***Cronfa Ffilm***

Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith o baratoi achos busnes ar gyfer Cronfa Ffilm i Gymru. Dim ond yn sgil cyflwyno achos busnes a chymeradwyo cais am gyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop y cymeradwyir y gronfa'n derfynol.

Gobeithiaf roi adroddiad pellach ar y gronfa yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Pe câi achos busnes ei dderbyn, byddai cryn waith i'w wneud i ddatblygu systemau a gweithdrefnau i sefydlu cronfa. Gobeithiaf y gellir gwneud llawer o'r gwaith hwnnw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

***Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus 2002 dan Adran 6(1)(o) Deddf yr Iaith Gymraeg***

Rwyf wedi caniatáu i ymgynghoriadau gael eu cynnal gydag 16 corff arall gyda'r bwriad o'u galw'n gyrff cyhoeddus at ddibenion Deddf yr Iaith Gymraeg. Mae'r cyfnod ymgynghori

cychwynnol newydd ddod i ben ac mae angen ymgynghori rhywfaint ymhellach. Byddaf yn cyflwyno papur ar y mater hwn i'r Pwyllgor gyda hyn.

***Ymweliadau***

Rhestrir manylion f'ymweliadau rhwng 4 Tachwedd a 4 Rhagfyr yn Atodiad 1.

Atodiad 1

**YMWELIADAU A WNAED GAN JENNY RANDERSON AC**

**4 TACHWEDD – 4 RHAGFYR 2001**

**Tachwedd**

| | |
|---|---|
| Annerch Cynhadledd Menywod a Merched mewn Chwaraeon | Llandrindod |
| Cadeirio Cyfarfod Bord Gron y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol/BBC Cymru ar y Cyfryngau | Llandaf |
| Mynd i Wasanaeth Sul y Cofio | Eglwys Gadeiriol Llandaf |
| Cyflwyno Gwobrau Hyfforddwr y Flwyddyn | Canolfan Chwaraeon Cymru, Gerddi Soffia |
| Mynd i dderbyniad y Cyngor Prydeinig | Gwesty Dewi Sant, Bae Caerdydd |
| Ffotograffau gyda Jane Davidson: Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion | Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd |
| Yn fyw o'r Gyfnewidfa Lo 'Dyfodol Rygbi' | Caerdydd |
| Mynd i seremoni wobrwyo Hil yn y Cyfryngau | Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru, Caerdydd |
| Mynd i lansiad 9fed seremoni gwobrau busnes Arts&Business | Neuadd Dewi Sant, Caerdydd |

| | |
|---|---|
| Prif Anerchiad – Cynhadledd Ffocws ar Ffilm Sgrîn | Y Gyfnewidfa Lo, Caerdydd |
| Mynd i seremoni wobrwyo Cymraes y Flwyddyn | Arena Ryngwladol Caerdydd |
| Mynd i ran o’r Rali Network Q | Abertawe |
| Mynd i gêm rygbi Cymru v Awstralia | Stadiwm y Mileniwm |
| Mynd i Dderbyniad ‘The Lady and the Duke’ | Sinema’r UGC, Caerdydd |
| Yna: Cinio gyda’r Llysgennad ar ran y Prif Weinidog | Bae Caerdydd |
| Annerch Cynhadledd ar Hyfforddi o Safon Fyd-Eang | Vale of Glamorgan Country Club |
| Mynd i gyfarfod Cyngor Prydain ac Iwerddon | Dulyn |

**Rhagfyr**

| | |
|---|---|
| Ymweld â Choleg Cerdd a Drama Cymru | Caerdydd |
| Annerch Dosbarthwyr Loteri’r Gronfa Cyfleoedd Newydd | Nelson |